

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol BUPA, Castell-
nedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 3 Medi 2024

Dyddiad cyhoeddi: 4 Rhagfyr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	Ansawdd Profiad y Claf	8
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	20
	• Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	• Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	• Atodiad C - Cynllun gwella	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol BUPA, Castell-nedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 3 Medi 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 4 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff ym Mhractis Deintyddol BUPA, Castell-nedd yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd addasiadau wedi'u gwneud er mwyn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael yn glir i gleifion
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar, ac yn addas at y diben
- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel
- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith ym Mhractis Deintyddol BUPA, Castell-nedd. Roedd rheolwr y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff ac arfarniadau rheolaidd.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r weithdrefn gwyno.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Defnyddio system electronig i reoli gofynion hyfforddiant y staff
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Rwyf bob amser yn cael triniaeth ragorol a phroffesiynol. Rwy'n hapus iawn â'r practis."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom amrywiaeth dda o daflenni a phosteri yn ardal y dderbynfa a ffolder gynhwysfawr o wybodaeth i gleifion. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth am ofal y geg, rhoi'r gorau i smygu, deiet ac iechyd deintyddol.

Roedd Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ar gael yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, ond nid oedd ar gael ar wefan y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Datganiad o Ddiben ar gael ar wefan y practis.

Roedd arwydd 'dim smygu' yn cael ei arddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, ac roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn yr ardal aros, er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Ac eithrio deintyddfa 4, roedd bleinds neu wydr nad oedd modd gweld drwyddo ar yr holl ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau nad oes modd gweld drwy'r ffenestr allanol yn neintyddfa 4.

Roedd poster i yn dangos prisiau triniaethau'r GIG a phrisiau triniaethau gofal preifat yn ardal y dderbynfa. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos. Roedd y ffolder gwybodaeth i gleifion yn cynnwys amrywiaeth dda o wybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys copïau dwyieithog o god safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir yn y ffenestr flaen, ac roedd modd eu gweld o'r tu allan i'r practis. Yn ogystal, roedd lluniau o aelodau o'r staff, eu henwau, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu mewn i'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y gellid mynd â chleifion a oedd am gael trafodaeth gyfrinachol i ddeintyddfa wag neu i ardal eistedd eilaidd y tu allan i ddeintyddfa 2.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a wnaeth gadarnhau bod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y staff wrthym fod system anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion wedyn yn cael gwybod am yr oedi ar lafar ac yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu'r apwyntiad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir ar y drws ffrynt, ynghyd â rhifau ffôn i'w defnyddio y tu allan i oriau neu mewn argyfwng. Dywedodd y staff wrthym fod arwydd newydd wedi cael ei archebu er mwyn dangos yr oriau agor diweddaraf.

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy ddefnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein.

Dywedodd y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o'r amserlen ddyddiol a bod apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig fel mater o drefn i gleifion ar restr aros. Roedd staff y dderbynfa yn blaenoriaethu apwyntiadau brys yn seiliedig ar symptomau'r cleifion a'u hanghenion clinigol. Gwelsom fod gan y practis bolisi 'brysbennu a mynediad diogel i ofal'.

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn gweithredu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ac roedd rhai deunyddiau ar gael yn ddwyieithog. Roedd poster yn ardal y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion fod gwybodaeth ddwyieithog a gwasanaethau cyfieithu ar gael.

Dywedodd y staff wrthym fod un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg. Er nad oedd bathodynau iaith Gwaith yn cael eu gwisgo, roedd y practis yn defnyddio cynllun tebyg lle roedd bathodynau enwau'r staff yn cynnwys symbolau baneri i ddangos pa ieithoedd roeddent yn eu siarad, gan gynnwys Cymraeg.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaethau cyfieithu LanguageLineUK ar gael iddynt pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Hawliau a chydaddoldeb

Roedd Safon Cynhwysiant ac Amrywiaeth ar waith yn y practis wedi'i darparu gan ei grŵp corfforaethol, a oedd yn cynnwys diffiniadau o nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn ymdrin â hawliau cleifion a staff.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch

Gwelsom fod darpariaeth dda ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd ramp a handlenni cydio wrth y fynedfa flaen, ac roedd desg y dderbynfa yn cynnwys rhan is ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd dwy ddeintyddfa ar y llawr gwaelod, a dywedodd y staff wrthym pe bai angen i gleifion gael eu trin yn y deintyddfeydd hyn neu pe bai'n well ganddynt hynny, y byddai hyn yn cael ei nodi yn eu cofnodion.

Roedd y toiled i gleifion ar y llawr cyntaf. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw gleifion nad oeddent yn gallu cyrraedd y toiled hwn yn cael eu hebrwng i doiled y staff, a oedd ar y llawr gwaelod. Roedd handlen gydio wedi'i gosod yn nhoiled y staff, ac roedd cyfleusterau addas ar gyfer golchi a sychu dwylo a bin gwaredu eitemau mislif.

Roedd breichiau ar tua hanner y cadeiriau yn yr ardal aros er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd.

Roedd system dolen sain yn ardal y dderbynfa er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd gwaith adfer wedi'i wneud yn yr ardaloedd lle cafwyd difrod dŵr a dywedodd y staff wrthym fod rhagor o waith wedi'i drefnu. Roedd angen trwsio tap yn y toiled i gleifion ond cawsom sicrwydd gan y staff fod y mater hwn eisoes wedi'i nodi a bod gwaith trwsio wedi'i drefnu.

Gwelsom fod polisi lechyd a Diogelwch priodol ar waith yn y practis, wedi'i ategu gan amrywiaeth gynhwysfawr o asesiadau risg. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Roedd gan y practis Gynllun Parhad Busnes cyfredol, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a rhifau ffôn mewn argyfwng.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Yn ogystal â gwiriadau rheolaidd gan staff y practis, dywedodd y staff wrthym fod y tîm corfforaethol yn cynnal archwiliadau diogelwch tân bob blwyddyn.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad wedi'i gwblhau ar y gosodiadau trydanol.

Roedd cyfleusterau newid y gellir eu cloi ar gael i'r staff ynghyd â loceri storio ar gyfer eitemau personol.

Roedd system teledu cylch cyfyng (CCTV) ar waith yn ardaloedd cyhoeddus ac ardaloedd staff y practis, ond nid yn yr ardaloedd clinigol. Dywedodd y staff wrthym mai dim ond recordiadau fideo oedd yn cael eu gwneud, a bod y recordiadau yn cael eu dileu ar ôl 30 diwrnod. Roedd arwyddion priodol yn nodi bod recordiadau CCTV yn cael eu gwneud, a gwelsom fod polisi CCTV priodol ar waith hefyd.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau priodol, arweinydd rheoli heintiau dynodedig a threfniadau glanhau effeithiol. Roedd y cadeiriau yn yr ardaloedd aros wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellid eu sychu'n lân ac roeddent mewn cyflwr da.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd y practis yn cadw'r rhan fwyaf o'r offer yn yr ystafell ddihalogi hyd nes bod eu hangen. Nodwyd gennym fod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar a bod y gwiriadau hynny yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff ac roeddem o'r farn eu bod yn foddhaol. Dywedodd y staff wrthym fod hen feddyginiaethau neu feddyginiaethau heb eu defnyddio, gan gynnwys Midazolam, yn cael eu danfon i fferyllfa leol i'w gwaredu, a bod derbynebau yn cael eu rhoi i gofnodi'r broses.

Gwelsom fod trefniadau priodol a diogel ar waith yn y practis ar gyfer rheoli meddyginiaethau, wedi'u hategu gan bolisi Rheoli Meddyginiaethau. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodlyfrau yn cael eu cadw o'r meddyginiaethau a roddwyd i gleifion.

Nodwyd gennym fod rhestr wirio o ddyddiadau defnyddio ar gyfer yr holl ddeunyddiau yn cael ei chadw ym mhob deintyddfa, a oedd yn arfer da yn ein barn ni. Yn ogystal, roedd ffolder o wybodaeth ddefnyddiol i'r clinigwyr a'r cleifion ym mhob deintyddfa, gan gynnwys rhestrau gwirio a ffurflenni cydsynio.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod yr holl gyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn yr un

modd, roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael ar bob llawr o'r adeilad ac roedd y pecynnau hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith a'u bod ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd manylion cyswllt priodol ar gael ym mhob deintyddfa.

Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan.

Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant hyd at Lefel 2 ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd yn cael ei gefnogi gan Arweinydd Ardal o'r grŵp corfforaethol, a oedd wedi cwblhau hyfforddiant hyd at Lefel 3. Yn ogystal, roedd y practis wedi penodi aelod o staff y dderbynfa fel arweinydd ar gyfer achosion lle nad oedd plant yn mynychu apwyntiadau a drefnwyd, er mwyn nodi plant a oedd yn colli apwyntiadau yn rheolaidd.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar, gan gynnwys y cywasgydd.

Gwelsom fod stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roedd gwybodaeth am fanteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydrau-X ar gael yn hwylus i gleifion.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Esboniodd y staff sut y byddent yn dod o hyd i ganllawiau a chynngor proffesiynol ac yn eu dilyn lle byddai angen gwneud hynny.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Roedd copïau ar gael ym mhob deintyddfa.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf a gwelsom brosesau da iawn a chyson ar gyfer cofnodi gwybodaeth glinigol.

Fel mater o arfer gorau, gwnaethom argymhell y dylai'r practis edrych ar y pecyn cymorth seiliedig ar dystiolaeth Delivering Better Oral Health, yn benodol y rhannau am roi farnais fflworid i blant.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y safle a'r cyfleusterau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn cael blaenoriaeth lle y bo'n bosibl, a bod unrhyw apwyntiadau a ganslwyd yn cael eu cynnig i eraill gan ddefnyddio rhestr aros.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cwblhaodd pedwar aelod o'r staff holiadur AGIC, ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol wrth sôn am y practis a sut roedd yn gweithredu. Roedd pawb a ymatebodd yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion, a byddent yn argymhell y practis fel rhywle da i weithio.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd rheolwr y practis, wedi'i gefnogi gan grŵp corfforaethol. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis, a bod cofnodion yn cael eu dosbarthu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyfarfodydd un i un ac arfarniadau rheolaidd a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisi Recriwtio a Dethol, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion.

Roedd rhestr wirio yn cael ei defnyddio, a oedd yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau, ac roedd gwiriadau yn cael eu cynnal drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd rhestr wirio arall yn cael ei defnyddio wrth sefydlu staff er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall materion a gweithdrefnau sy'n benodol i'r practis.

Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio fel y bo angen a bod rhestrau gwirio tebyg yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio, ac er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r practis a'i weithdrefnau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal.

Roedd hyfforddiant y staff yn cael ei fonitro gan ddefnyddio system electronig ac roedd cyfleoedd dysgu da ar gael i'r staff drwy'r grŵp corfforaethol. Gwelsom gydymffurfiaeth dda â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac roedd y systemau a oedd yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd ymdrechion penodol yn cael eu gwneud i gasglu adborth gan gleifion ac roedd posteri a hysbysiadau atgoffa yn rhoi cyfarwyddyd i gleifion adael adolygiadau ar-lein. Roedd cleifion yn cael negeseuon e-bost ar ôl eu triniaeth yn gofyn am adborth, y gellid ei gyflwyno'n ddiennw.

Roedd posteri yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr ardal aros yn dangos canlyniadau arolygon cleifion, ac yn rhoi sgoriau allan o ddeg ar gyfer agweddau amrywiol ar y gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym fod ffurflenni adborth papur ar gael fel arfer yn ardal y dderbynfa, ond ni welwyd unrhyw ffurflenni o'r fath yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ffurflenni adborth papur ar gael i gleifion ac y gellir eu cyflwyno'n ddiennw.

Roedd posteri 'dywedo chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros i ddangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd o ganlyniad i adborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen.

Nodwyd gennym, er bod y weithdrefn yn rhoi cyfarwyddyd i gleifion gyflwyno cwynion i reolwr y practis, nad oedd yn nodi manylion cyswllt ar ei gyfer. Yn yr un modd, roedd yn anodd i gleifion ddod o hyd i'r manylion cyswllt priodol drwy wefan y practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o wasanaeth eirioli Llais ond nad oeddent wedi cynnwys ei fanylion yn y weithdrefn eto. Roedd manylion AGIC

wedi'u nodi, gan gynnwys cyfeiriad y wefan. Fodd bynnag, dylai'r weithdrefn hefyd gynnwys cyfeiriad post a rhif ffôn AGIC.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y weithdrefn gwyno ei diweddarau i gynnwys manylion cyswllt i gleifion eu defnyddio i gyflwyno cwyn, cyfeiriad at Llais a manylion cyswllt llawn AGIC.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd, a bod unrhyw faterion a champau gweithredu yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd polisi manwl ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn hyn o beth.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig i reoli cofnodion y cleifion, polisiâu a gweithdrefnau a chofnodion hyfforddiant y staff.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd Polisi Asesu Ansawdd ar waith yn y practis, ac roedd system effeithiol ar gyfer adolygu cymheiriaid a chymorth gan gymheiriaid ar waith i'r staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod amrywiaeth o archwiliadau yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys rhagnodi gwrthficrobaidd, ansawdd radiograffig, iechyd a diogelwch a gofynion WHTM 01-05. Fodd bynnag, nid oedd archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu wedi cael ei gynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhoi'r gorau i smygu ei gynnwys yn y rhaglen archwilio.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio'r adnoddau hyfforddiant gwella ansawdd a oedd yn cael eu darparu gan eu grŵp corfforaethol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedodd y staff wrthym mai dros y ffôn neu drwy e-bost y byddent fel arfer yn rhyngweithio â phartneriaid system, neu drwy ddefnyddio systemau ar-lein fel y system ar gyfer atgyfeirio cleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol BUPA, Castell-nedd

Dyddiad yr arolygiad: 3 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch nac unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dd/G

Teitl swydd: Dd/G

Dyddiad: Dd/G

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol BUPA, Castell-nedd

Dyddiad yr arolygiad: 3 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ar gael ar wefan y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 5(2)	Cam gweithredu gan y gwasanaeth - dylai'r datganiad o ddiben gael ei lanlwytho i'r wefan erbyn yr wythnos sy'n dod i ben 11/10/2024	Quaid-ann Bancroft	Ar y gweill
2.	Roedd modd gweld drwy ffenestr allanol un ddeintyddfa, gan leihau preifatrwydd i gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 15	Trefnwyd i gwmni New Vision osod gwydr barugog. Rydym yn aros i gael dyddiad ar gyfer y gwaith gosod.	Quaid-ann Bancroft	O fewn 2 fis
3.	Nid oedd ffurflenni adborth papur ar gael yn ardal y dderbynfa ar adeg yr arolygiad.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(2)(ii)	Mae ffurflenni adborth bellach ar gael yn y dderbynfa.	Quaid-ann Bancroft	Wedi'i gwblhau.

		gael i gleifion ac y gellir eu cyflwyno'n ddiennw.				
4.	Roedd rhywfaint o wybodaeth gyswllt a manylion cyrff allanol ar goll o'r weithdrefn gwyno.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y weithdrefn gwyno ei diweddarau i gynnwys manylion cyswllt i gleifion eu defnyddio i gyflwyno cwyn, cyfeiriad at Llais a manylion cyswllt llawn AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21(1) a (4)	Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad at Llais a manylion cyswllt llawn AGIC ac i gynnwys ffordd hawdd o gysylltu â'r Rheolwr i gwyno.	Quaid-ann Bancroft	Ar y gweill
5.	Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad Rhoi'r Gorau i Smygu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhoi'r gorau i smygu ei gynnwys yn y rhaglen archwilio.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16(1)	Mae archwiliad rhoi'r gorau i smygu yn cael i gynnal drwy ddolen y GIG. Mae BUPA yn ystyried cynnwys yr archwiliad hwn fel rhan o'n harchwiliadau gorfodol.	Quaid-ann Bancroft	Parhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Quaid-ann Bancroft

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 10 Hydref 2024